**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

13 Mehefin 2024

## Datganiad Rennes

Annwyl Vaughan

Dyma ysgrifennu atoch o ran Datganiad Rennes, y cytunwyd arno ym mis Awst 2023.

Byddwch yn ymwybodol i'r Pwyllgor gynnal gwaith monitro rheolaidd o **gytundebau dwyochrog rhyngwladol Llywodraeth Cymru**. Sylwaf fod Datganiad Rennes wedi'i ychwanegu'n ddiweddar at y dudalen we sy'n rhestru'r holl gytundebau dwyochrog rhyngwladol.

Mae'r Pwyllgor wedi ceisio gwella argaeledd a thryloywder gwybodaeth am gysylltiadau rhyngwladol sydd ar gael i'r cyhoedd, ac rydym wedi croesawu'r agwedd gadarnhaol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru pan fydd gwybodaeth wedi'i rhannu â ni. Braidd yn siomedig yw hi, felly, na chawsom ein hysbysu'n rhagweithiol am y cytundeb rhyngwladol hwn, yn enwedig o ystyried nifer y partneriaid rhyngwladol blaenoriaethol dan sylw – a hyd a lled y meysydd yr ymdrinnir â hwy – sy'n syrthio oddi fewn i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn.

Er mwyn llywio dealltwriaeth y Pwyllgor o Ddatganiad Rennes, byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi gymryd y camau a ganlyn:

- Darparu copi o'r cytundeb i'r Pwyllgor hwn;
- amlinellu meysydd cyflawni blaenoriaethol Llywodraeth Cymru;
- cadarnhau pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad; a

- rhoi eglurhad inni o ran pam nad yw holl gytundebau dwyochrog rhyngwladol Llywodraeth Cymru – megis ei Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Llywodraeth Kerala, neu ei Chytundeb Cyfeillgarwch Rhyngwladol â dinas Birmingham, Alabama – wedi'u rhestru ar y dudalen ar y we.

Yn olaf, dyma obeithio, mewn ymateb, y byddwch yn ymrwymo i hysbysu'r Pwyllgor am yr holl gytundebau dwyochrog rhyngwladol a ddaw i ben gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Byddai hyn yn ein cynorthwyo i ddeall yn well beth yw canlyniadau diriaethol gweithgareddau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, ac i ddathlu cysylltiadau rhyngwladol newydd Cymru.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb erbyn 11 Gorffennaf 2024.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.